IS- DDEDDFWRIAETH

2010 Rhif 37

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

CYFARWYDDIADAU GWAED A THRAWSBLANIADAU'R GIG (NHS BLOOD AND TRANSPLANT) (CYMRU) (DIWYGIO) (RHIF 2) 2010

Gwnaed	*21 Rhagfyr 2010*
Yn dod i rym	*21 Rhagfyr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 23(1), 24(1) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) drwy hyn yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn—

Cychwyn , cymhwyso a dehongli

1.—(1) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 21 Rhagfyr 2010.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "y Prif Gyfarwyddiadau" ("*the Principal Directions*") yw Cyfarwyddiadau Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHS Blood and Transplant) (Cymru) 2005.

(4) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn diwygio'r Prif Gyfarwyddiadau.

Diwygio cyfarwyddyd 1 o'r Prif Gyfarwyddiadau

2. Yng nghyfarwyddyd 1 (enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso) o'r Prif Gyfarwyddiadau, yn y diffiniad o "y Ddeddf" yn is-baragraff (2), yn lle "Deddf

(1) 2006 (p.42).

Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977" rhodder "Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006".

Diwygio cyfarwyddyd 5 o'r Prif Gyfarwyddiadau

3. Mae cyfarwyddyd 5 o'r Prif Gyfarwyddiadau (swyddogaethau mewn cysylltiad â dyrannu organau dynol i'w trawsblannu) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn —

(a) yn is-baragraff (1), ar ôl "is-baragraffau" mewnosoder "(1A),";

(b) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder yr is-baragraff a ganlyn—

"(1A) Wrth arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â dyrannu organau i'w trawsblannu o dan gyfarwyddyd 4(1) ac is-baragraff (1), bydd GTGIG yn rhoi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddyrannu organau i'w trawsblannu a gyhoeddir cyn 20 Rhagfyr 2010 ac, er mwyn rhoi effaith i'r canllawiau hynny, caiff ddyrannu organau mewn ffordd sy'n wahanol i'r hyn a geir o dan y Cynlluniau."; ac

(c) ar ôl is-baragraff (3)(ch) ychwaneger—

"(d) personau sy'n preswylio fel arfer yn Ynysoedd y Sianel." .

Diwygio cyfarwyddyd 6 o Gyfarwyddiadau 2005

4. Yng nghyfarwyddyd 6 (swyddogaethau cyffredinol GTGIG) o'r Prif Gyfarwyddiadau —

(a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle "adran 23 o'r Ddeddf (cyrff gwirfoddol a chyrff eraill)" rhodder "adran 10 o'r Ddeddf (trefniadau Gweinidogion Cymru â chyrff eraill)"; a

(b) yn is-baragraff (1)(b), yn lle adran 2(b) o'r Ddeddf (pwerau cyffredinol y Cynulliad ynglŷn â gwasanaethau), rhodder "adran 2(1)(b) o'r Ddeddf (Pŵer cyffredinol Gweinidogion Cymru)".

Diwygio cyfarwyddyd 8 o'r Prif Gyfarwyddiadau

5. Yng nghyfarwyddyd 8 (trafodion tir) o'r Prif Gyfarwyddiadau—

(a) yn is-baragraff (1), yn lle "adran 87(1) a (2)" rhodder "adran 159(1) i (3) (caffael, defnyddio a chynnal eiddo)"; a

(b) yn is-baragraff (6), yn lle "adran 87" rhodder "adran 159".

Edwina Hart AC

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad 21 Rhagfyr 2010